



## Costau lluniaeth a bwyd

16 Mehefin 2022

### Cais am wybodaeth.

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 18 Mai, pan wnaethoch ofyn:

*I am writing to request information under the Freedom of Information Act of 2002. The full request form is attached to this email with further details.*

*The information I'm requesting is as follows:*

- Records of the details of the annual (and if possible specific details, dates, items, receipts) amount of funds dedicated to both refreshment, and food costs for Welsh Parliament and associated buildings if possible from 2019 to present. I would like to receive these records via email by word or excel if at all possible.*

*Clarified 18.05.22 - I mean the catering contract but also any food or beverages not covered by the catering contact but still paid for with public funds, ie expensed meals or coffee purchased for meetings etc.*

Mae ein hymateb i'ch cais isod. Er mwyn sicrhau ein bod wedi ateb eich cais, rwyf wedi rhannu ein hymateb yn dair rhan.

#### **i. Gwasanaethau arlwyo**

Darperir gwasanaethau arlwyo i Gomisiwn y Senedd drwy gontract i ddarparu amrywiaeth o wasanaethau ar draws mannau arlwyo'r Senedd, gan gynnwys bwyty staff, ystafelloedd te a bwyty'r Aelodau, a chaffi cyhoeddus. Nid yw'r gwasanaethau arlwyo penodol yn seiliedig ar gymorthdaliadau pris ar gyfer eitemau sydd ar werth ond ar sail cyfanswm costau'r contract a'r gyllideb i ddarparu'r ystod o wasanaethau sydd eu hangen yn y

Senedd Cymru  
Bae Caerdydd  
Caerdydd, CF99 1SN

Welsh Parliament  
Cardiff Bay  
Cardiff, CF99 1SN  
Ffôn/Tel: 0300 200 6224

E-bost/Email: [Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru](mailto:Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru)  
[Information-request@senedd.wales](mailto:Information-request@senedd.wales)

mannau arlwyo. Mae cost darparu'r ystod gyfan o wasanaethau, sef cyfanswm cost cymhorthdal gwasanaeth hefyd, i'w gweld yn ein Cyllideb Flynyddol sydd wedi'i chyhoeddi. Rydym wedi cynnwys linc i'r adroddiadau cyllideb a chyfeirnodau tudalennau yn y tabl isod:

<b>Adroddiad Cyllideb Comisiwn y Senedd</b>	<b>Cyfeirnod tudalen</b>
<u>2021-22</u>	Tudalen 25
<u>2020-21</u>	Tudalen 33
<u>2019-20</u>	Tudalen 40
<u>2018-19</u>	Tudalen 40

## **ii. Hawliadau Aelodau o'r Senedd**

Mae'r rheolau am yr hyn y mae gan Aelodau o'r Senedd yr hawl i wneud cais amdano i'w cael yn y **Penderfyniad** (yn benodol paragraffau 4.5.7 a 5.15.3).

I ddod o hyd i'r wybodaeth hon ar ein **system lwfansau**, dilynwch y cyfarwyddiadau hyn:

- i. Dewiswch y blynyddoedd ariannol yr hoffech chwilio amdanynt.
- ii. I ddewis Aelod penodol o'r Senedd, cliciwch ar 'DEWIS AELOD' i weld rhestr o Aelodau blaenorol a phresennol, a dewiswch yr Aelod(au) penodol. Os ydych chi am chwilio'r system am yr holl Aelodau, gadewch hwn yn wag.
- iii. I ddewis y math penodol o draul, ewch i 'DEWIS MATH O LWFANS', yna dewiswch 'Lwfans costau ychwanegol' a 'Prydau/Cynhaliaeth'.
- iv. Dewiswch 'Chwilio'

Cyhoeddir yr holl hawliadau ar ein system lwfansau dri mis yn ddiweddarach a bydd yn dangos yn y flwyddyn ariannol y mae'r gost yn gysylltiedig â hi. Os na allwch ddilyn y cyfarwyddiadau hyn, rhowch wybod i mi.

Gan fod y wybodaeth hon eisoes ar gael, mae eich cais yn ddarostyngedig i adran 21 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 sy'n eithrio gwybodaeth sydd ar gael yn rhesymol drwy ddulliau eraill.

## **iii. Hawliadau lletygarwch a chynhaliaeth**

Gweler ynghlwm daenlen o'r hawliadau lletygarwch a chynhaliaeth y talwyd amdanynt rhwng 01/01/2019 a 13/05/2022.

Yn gywir

**Buddug Saer**

**Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth  
Senedd Cymru**

Mae eich cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y **Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Wedd Gwybodaeth**. Mae croeso ichi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr ymateb hwn. Os ydych yn teimlo bod gennych achos i gwyno, dylech ddilyn y canllawiau isod.

A oes gennych achos i bryderu neu i gwyno ynghylch yr ymateb a gawsoch i'ch cais?

Os ydych yn anfodlon ar sut y mae Senedd Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at y Rheolwr Rhyddid Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad e-bost a ganlyn:

**Ceisiadau-gwybodaeth@senedd.cymru** neu'n ysgrifenedig i

Senedd Cymru  
Llywodraethu a Sicrwydd  
Bae Caerdydd  
Caerdydd  
CF99 1SN

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gellir cysylltu â Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Information Commissioner's Office  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF